

MORRIS, CALEB (1800 - 1865), gweinidog Annibynnol

Enw: Caleb Morris
Dyddiad geni: 1800
Dyddiad marw: 1865
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog Annibynnol
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: John Dyfnallt Owen

Ganwyd 12 Awst 1800 yn Parcyd, plwyf Eglwyswen, Sir Benfro. Addysgwyd ef yn Aberteifi, ysgol ramadeg Hwlfordd, ysgol ramadeg academi Caerfyrddin (1816-9), ac academi Caerfyrddin (1819-22). Derbynwyd yn aelod yn eglwys Penygores, Sir Benfro, yn 14 oed; yno y dechreuodd bregethu yn ddiweddarach. Yn 1822 derbyniodd alwad o Arberth, Sir Benfro, ac ordeiniwyd ef yno 2 Ebrill 1823. Symudodd i Fetter Lane, Llundain, yn 1827. Yn 1838, gwahoddwyd ef i fod yn brifathro academi Aberhonddu, eithr ymgroesodd rhag yngymryd â'r cyfrifoldeb. Tynnodd sylw mawr fel pregethwr poblogaidd yn Fetter Lane, a dylifai cynulliadau mawr i wrando arno. Oherwydd ysbeidiau o wendid, encilai i Gymru am atgyfnerthiad. Er chwilio am adferiad yn yr Yswistir a'r Almaen, trethwyd nerth ei ysbyrd a'i gorff, ac ymddeolodd a dychwelyd i'w hen gynefin ym Mhenfro lle y bu farw 26 Gorffennaf 1865. Meddai ar ddoniau eithriadol fel pregethwr, a dringodd ar waethaf ei nyhdod i fod yn un o oleuadau disgrair y pulpud yn Llundain.

Awdur

Y Parchedig John Dyfnallt Owen, (1873 - 1956)

Ffynonellau

The Congregational Year Book, 1866

D. Tyssil Evans, *Cofiant a detholiad o bregethau y Parch Caleb Morris, Fetter Lane, Llundain / The life and ministry of the Rev. Caleb Morris who was the minister of the Tabernacle, Narberth; and of Fetter Lane Chapel, London* (Caerdydd 1900, 1902), 1900 (argraffiad Saesneg, 1902)

Darllen Pellach

Evan John Evans, William Flavel Hurndall, 'Caleb Morris', *Pulpit memorials: photographs and specimen sermons of twenty Congregational ministers, with brief memoirs by several friends* (London 1878), tt. 381-411

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [46697769](#)

Wikidata: [Q20732685](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Owen, J. D., (1953). MORRIS, CALEB (1800 - 1865), gweinidog Annibynnol. Y Bywgraffiadur Cymreig. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-MORR-CAL-1800>

Copio i'r

clipwedd

Preifatrwydd a Chwics
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Noddi gan
Llyfrgell Cymru
Sponsored by
Welsh Government